# Ffurflen Cais Gwrthrych am Wybodaeth

Llenwch y ffurflen hon os ydych chi eisiau i Cyfoeth Naturiol Cymru roi copi i chi o unrhyw ddata personol sydd gennym amdanoch. Mae gennych chi'r hawl i gael yr wybodaeth hon o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR). O dan y GDPR, byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am unrhyw waith prosesu sy'n cael ei wneud ar eich data personol, gan gynnwys y dystiolaeth adnabod sydd ei hangen:

- y cyfnodau cadw sy'n berthnasol i'ch data personol
- unrhyw hawliau cywiro
- unrhyw hawliau dileu
- unrhyw hawliau i gyfyngu'r prosesu a allai fodoli
- unrhyw hawl i wrthwynebu

Byddwn yn ceisio ymateb yn brydlon ac, ym mhob achos, o fewn un mis o'r diweddaraf o’r canlynol:

- ein derbyniad o'ch cais ysgrifenedig
- ein derbyniad o unrhyw wybodaeth bellach y gallem ofyn i chi amdani er mwyn ein galluogi i gydymffurfio

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych ar y ffurflen hon ond yn cael ei defnyddio at ddibenion dod o hyd i'r data personol rydych chi'n gofyn amdano ac ymateb i'ch cais. Nid oes rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon i wneud cais, ond bydd gwneud hyn yn ei gwneud hi'n haws i ni brosesu eich cais yn gyflym.

## ADRAN 1: Manylion yr unigolyn sy'n gofyn am yr wybodaeth

| | |
|---|---|
| Enw llawn: | |
| Cyfeiriad: | |
| Rhif ffôn cyswllt: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost: | |

## ADRAN 2: Ai chi yw gwrthrych y data?

Ticiwch y blwch priodol a darllenwch y cyfarwyddiadau sydd oddi tano.

- ☐ **IE –** Fi yw gwrthrych y data. Amgaeaf dystiolaeth o bwy ydw i (gweler isod). (ewch i adran 4)
- ☐ **NA –** Rwy'n gweithredu ar ran gwrthrych y data. Rwyf wedi amgáu awdurdod ysgrifenedig gwrthrych y data, ynghyd â thystiolaeth o bwy yw gwrthrych y data a phwy ydw i (gweler isod). (ewch i adran 3)

Er mwyn sicrhau ein bod yn rhyddhau'r data i'r unigolyn cywir, byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o bwy ydych a thystiolaeth o'ch cyfeiriad. Darparwch un llungopi neu lun wedi'i sganio (peidiwch ag anfon y rhai gwreiddiol) o bob un o'r categorïau canlynol:

1) **Tystiolaeth o bwy ydych** – pasbort, trwydded yrru â llun, cerdyn adnabod cenedlaethol, tystysgrif geni.
2) **Tystiolaeth o gyfeiriad** – bil cyfleustodau, cyfriflen banc, cyfriflen cerdyn credyd (dim hynach na thri mis oed), trwydded yrru gyfredol, trwydded deledu gyfredol, bil treth yr awdurdod lleol, dogfen dreth CThEM (dim hynach nag un flwydd oed).

Os na fyddwn ni'n fodlon mai chi yw'r sawl rydych chi'n honni i fod, bydd gennym ni'r hawl i wrthod eich cais.

## ADRAN 3: Manylion gwrthrych y data (os yw'n wahanol i adran 1)

| | |
|---|---|
| Enw llawn: | |
| Cyfeiriad: | |
| Rhif ffôn cyswllt: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |

## ADRAN 4: Pa wybodaeth ydych chi'n chwilio amdani?

Disgrifiwch yr wybodaeth rydych chi'n chwilio amdani. Darparwch unrhyw fanylion perthnasol rydych chi'n credu bydd yn ein helpu ni i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch (megis adran Cyfoeth Naturiol Cymru).

| |
|---|
| |

Er y byddwn yn fwy na bodlon darparu copïau i chi o'r wybodaeth y byddwch chi'n gofyn amdani yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn cadw'r hawl i beidio â rhoi copïau i chi o'r

wybodaeth y gofynnwyd amdani pe bai hyn yn cymryd "ymdrech anghymesur", neu, yn unol ag Erthygl 12 o'r GDPR, i godi tâl neu wrthod y cais os credir ei fod yn "amlwg yn ddi-sail neu'n eithafol". Fodd bynnag, byddwn yn gwneud pob ymdrech i ddarparu mynediad boddhaol i chi neu grynodeb o'r wybodaeth os yw'n briodol.

## ADRAN 5: Gwybodaeth am gasglu a phrosesu data

Os ydych eisiau gwybodaeth am unrhyw un o'r canlynol, ticiwch y blychau:

- Pam ydym ni'n prosesu eich data personol ☐
- I bwy y datgelir eich data personol ☐
- Ffynhonnell eich data personol ☐

## ADRAN 6: Datgelu lluniau teledu cylch cyfyng

Os yw'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani ar ffurf lluniau fideo a dynnwyd gan ein camerâu diogelwch teledu cylch cyfyng, a fyddech chi'n fodlon edrych ar y lluniau hyn yn unig?

**BYDDWN** ☐ **NA FYDDWN** ☐

## Hysbysiad Preifatrwydd

*Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan ddarpariaethau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 yr UE. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf yn ddifrifol iawn. Cesglir yr wybodaeth a ddarperir gennych chi er mwyn gweinyddu eich cais gwrthrych am wybodaeth yn unig. Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn cwblhau ac ateb eich cais o fewn amserlenni statudol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu gydag adrannau perthnasol o Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn i'r Swyddog Diogelu Data gael yr wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen ar gyfer y cais. Mae llenwi'r ffurflen hon / rhannu eich gwybodaeth gyda ni yn golygu eich bod yn rhoi caniatâd penodol i ni brosesu eich data at y diben hwn. Gallwch dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg trwy ysgrifennu at y Swyddog Diogelu Data trwy anfon e-bost at dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, neu drwy anfon llythyr at y Swyddog Diogelu Data, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW. Yn ogystal, mae gennych chi'r hawl i weld pa wybodaeth a gedwir amdanoch, i gael gwybodaeth anghywir wedi'i chywiro, i gael gwybodaeth wedi'i thynnu oddi ar ein system (oni bai fod yn rhaid i ni ei chadw yn ôl y gyfraith neu at ddiben statudol), ac i gwyno i'r Swyddog Diogelu Data os ydych chi'n teimlo nad ymdriniwyd â'ch data yn unol â'r gyfraith. I ganfod am ba hyd y byddwn yn storio'r wybodaeth hon, cliciwch yma i weld amserlen gadw Cyfoeth Naturiol Cymru.*

## Dogfennau sy'n gorfod cael eu cynnwys gyda'r cais hwn:

- Tystiolaeth o bwy ydych chi (gweler adran 2)
- Tystiolaeth o bwy yw gwrthrych y data (os yw'n wahanol i'r uchod)
- Awdurdodiad gan wrthrych y data i weithredu ar ei ran (os yw'n berthnasol)

Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at:

**E-bost -** dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Nodwch y cyfeiriad canlynol:**

Swyddog Diogelu Data
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

## Cywiro gwybodaeth

Os ydych chi'n credu, ar ôl i chi dderbyn yr wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani, fod un o'r pethau canlynol yn wir:

- Mae'r wybodaeth yn anghywir neu'n hen
- Ni ddylem fod yn cadw'r wybodaeth hon mwyach
- Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth at ddiben nad oeddech chi'n ymwybodol ohono
- Rydym wedi trosglwyddo gwybodaeth anghywir amdanoch i rywun arall o bosibl

hysbyswch ein Swyddog Diogelu Data ar unwaith.